# LLEISION ap THOMAS (fl. 1513-41), abad olaf Mynachlog Nedd

**Enw:** Lleision ap Thomas
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** abad olaf Mynachlog Nedd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Evan John Saunders

a g  r o gryn ddylanwad ym Morgannwg yn nyddiau'r brenin Harri VIII. Yn 1513 (y cofnodiad cyntaf amdano, os nad ef oedd y Dom Lyson Thomas hwnnw a urddwyd yn ddiacon yn Ledbury gan esgob Henffordd, 24 Mawrth 1509) ceir ef yn un o'r comisiwn heddwch a benodwyd i ymgynnull yng Nghaerdydd ac eto yn 1534. Yn 1532 cymerodd ran bwysig yngl  n â therfysg rhwng rhanbarthau'r Cymry a'r Saeson ym Mro  yr, a chyfeiriwyd ato ar yr achlysur hwnnw fel g  r blaenllaw ym mywyd cyhoeddus yr ardal. Mae'n amlwg ei fod yn fawr ei barch gan y Sistersiaid, oblegid ef oedd un o bump o'r urdd a benodwyd gan y brenin i ymweled â'r tai Sistersiaidd drwy'r deyrnas yn 1532 ac i ddiwygio Coleg S. Bernard yn Rhydychen er cynnydd dysg a rhinwedd. Yn ei awdl enwog i Leision, canmolir yr abad yn fawr gan Lewys Morgannwg am ei ddysg a'i dduwioldeb, a dywed fod mynachlog Nedd yn gartref i ddiwylliant Cymru ac yn noddfa i'w hiaith. Pan ddiddymwyd y mynachlogydd mân yn 1536, estynnwyd bywyd abaty Nedd drwy i'r abad dalu £150. Ond er hynny gorfu i Leision ymddiswyddo ar 9 Chwefror 1539 gan roddi i fyny feddiannau'r fynachlog yn llwyr i'r brenin. Gwnaeth Syr John Price, dirprwy'r Goron, apêl daer i Thomas Cromwell am driniaeth hael tuag at abad Nedd, ac ni fu'n ofer, oblegid rhoddwyd iddo bensiwn o £48 a rheithoraeth Llangatwg ar yr amod ei fod yn ymadael pan gaffai ddyrchafiad eglwysig amgenach. Clywir ddiwethaf amdano yn 1541.

## Awdur

**Evan John Saunders**

## Ffynonellau

W. de Gray Birch, *A history of Neath Abbey derived from original documents preserved in the British Museum, H.M. Public Record Office, and at Neath, Margam, etc., with some account of the castle and town of Neath and notices of the other monasteries of Glamorganshire* (Neath 1902), 139-69

Lawrence Thomas, *The Reformation in the Old Diocese of Llandaff* (1930), 30-1, 38, 41-3

D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea 1925), 75, 229, 521-2, 746

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733815

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu